Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru
Older People's Commissioner for Wales

03442 640 670
Rydym yn croesawu galwadau yn Gymraeg

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

17 Medi 2019

Annwyl Gadeirydd,

Deiseb P-05-882 Trawsnewid yr ymateb i bobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth ddomestig - galw am weithredu

Diolch am eich llythyr ac am eich cais am wybodaeth sy'n ymwneud â'r materion sy'n codi yn y ddeiseb ac am ragor o wybodaeth am y gwaith rwyf yn bwriadu ei wneud i atal cam-drin pobl hŷn yng Nghymru.

Mae'r ddeiseb yn codi nifer o bwyntiau pwysig, ac rwy'n cefnogi'r galwadau a wnaed i godi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd a sefydliadau proffesiynol o brofiadau pobl hŷn o gam-drin domestig, ac i sicrhau bod cefnogaeth briodol ar gael i bobl hŷn sydd mewn perygl o ddioddef cam-drin domestig neu sy'n dioddef camdriniaeth o'r fath. Cefais gyfarfod â'r tîm Dewis Choice yn ddiweddar i ddysgu mwy am eu gwaith rhagorol a'r hyn y maent wedi'i ddysgu o hynny. Fe wnaethom drafod y ddeiseb hon a cham-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn yn ehangach, a byddaf yn parhau i weithio'n agos â nhw.

Er bod y ddeiseb yn canolbwyntio ar gam-drin domestig yn unig, mae fy ngwaith ar gam-drin yn cynnwys cam-drin pobl hŷn yn yr ystyr ehangaf, gan gynnwys mewn lleoliadau iechyd a gofal; cam-drin ariannol gan gynnwys sgamiau; a throseddau yn erbyn pobl hŷn. Mae dybryd angen trawsnewid ein dull gweithredu, ac rwy'n credu bod gan Gymru gyfle i arwain y ffordd drwy ddatblygu cynllun gweithredu cenedlaethol i atal cam-drin pobl hŷn.

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Dylid cynnwys safbwyntiau pobl hŷn wrth galon y cynllun wrth iddo gael ei ddatblygu. Dylai ganolbwyntio ar y canlynol, ymhlith pethau eraill:

- Codi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn ymhlith aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol
- Sicrhau hyfforddiant ar gam-drin i weithwyr iechyd, gofal, yr heddlu ac eraill sy'n gweithio gyda phobl hŷn
- Sicrhau bod digon o wasanaethau cefnogi priodol ar gael i bobl hŷn sydd mewn risg o gael eu cam-drin, neu sy'n cael eu cam-drin
- Gwella'r broses o gasglu data am gam-drin yng nghyswllt pobl hŷn er mwyn gwella ein dealltwriaeth a'n hatebolrwydd

Cam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn (problem gudd)

Mae miloedd o bobl hŷn yng Nghymru yn dioddef cam-drin domestig - naill ai un weithred neu weithred sy'n cael ei hailadrodd, sy'n achosi niwed neu drallod - dan law eu partner yn ogystal ag aelodau eraill o'u teulu. Bydd rhai pobl hŷn wedi bod yn dioddef cam-drin domestig am y rhan fwyaf o'u bywyd fel oedolion. Dim ond y dechrau fydd hi i eraill, wrth iddynt fynd yn hŷn neu ddatblygu cyflyrau iechyd penodol.

Mae'n anodd gwybod gwir raddfa'r gamdriniaeth ddomestig y mae pobl hŷn yn ei hwynebu, gan mai dim ond data ar adroddiadau i dimau diogelu oedolion a'r heddlu sydd gennym ni. Nid yw'r rhain yn dangos lefel y gamdriniaeth sy'n gudd yn aml iawn. Yn ôl gwaith ymchwil yn y DU a ledled y byd, amcangyfrifir bod rhwng 4% ac 16% o bobl hŷn wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth (gan gynnwys cam-drin domestig). Byddai'r ystod rhwng 33,000 a 138,000 o bobl yng Nghymru.[1] [2]

Mae'r ystadegau sydd gennym yn dangos y cafwyd 1,611 adroddiad am gam-drin domestig yng nghyswllt pobl dros 65 oed yn ystod 2017-18, a hynny drwy dimau diogelu'r awdurdodau lleol[3]. Rhoddwyd gwybod i'r heddlu yng Nghymru am 3,483 o ddigwyddiadau cam-drin domestig lle'r oedd y dioddefwr yn hŷn.[4]

Er gwaethaf lefelau'r gamdriniaeth ddomestig y mae pobl hŷn yn ei hwynebu a'r ffaith fod 1 o bob 4 dioddefwr dynladdiadau domestig yn y DU yn 60 oed a hŷn,[5] mae'r cyfraddau erlyn ar gyfer pob trosedd yn erbyn pobl hŷn yn frawychus o isel. Dim ond tua 1% o'r holl droseddau a gyflawnwyd yn erbyn person hŷn arweiniodd at erlyn, o gymharu â thua 19% ar gyfer yr holl droseddau a gyflawnir.[6]

Er mwyn tynnu sylw at gam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn, yn ogystal â chynyddu'r gyfradd adrodd ac erlyn, mae'n hanfodol bod mwy yn cael ei wneud i godi ymwybyddiaeth aelodau'r cyhoedd a gweithwyr proffesiynol o brofiadau pobl

hŷn am gam-drin domestig a’r gefnogaeth sydd ar gael i'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu sy’n dioddef camdriniaeth o'r fath.

Profiadau pobl hŷn o gam-drin domestig

Yn ogystal â chodi ymwybyddiaeth o achosion o gam-drin, mae’n bwysig bod yn fwy ymwybodol o sut mae cam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn yn wahanol i gam-drin pobl eraill sy’n iau.

Er enghraifft, canfu ‘*Gwerthusiad o Brosiect Peilot Mynediad i Gyfiawnder*’ Llywodraeth Cymru lawer llai o achosion lle’r oedd y cyflawnwr o dan ddylanwad camddefnyddio sylweddau o gymharu ag achosion o gam-drin domestig ymhlith y grwpiau oedran iau. [7] Hefyd, canfu'r adroddiad nifer uwch o ddioddefwyr a oedd yn ddynion hŷn o gymharu â dioddefwyr iau. Nodwyd hyn hefyd mewn astudiaeth yn y DU a gynhaliwyd gan SafeLives. Canfu’r astudiaeth mai dim ond 4% o’r cleientiaid oedd dynion o dan 60 oed yn ei gynrychioli, ac roedd y rhai dros 60 oed yn cynrychioli 21%. Roedd yr astudiaeth hon yn nodi nifer uwch o ddioddefwyr ag anabledd ymhlith menywod hŷn (48%) o gymharu â menywod iau (13%).[8]

Un maes penodol sy’n peri pryder yw cam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn sy’n byw gyda dementia. Rwy’n ymwybodol o sawl achos lle mae’r unigolyn sy’n byw gyda dementia wedi dechrau dangos arwyddion o drais (corfforol a/neu rywiol) tuag at ofalwr y teulu (gŵr/gwraig/partner fel rheol). Er bod arwyddion cynnar wedi bod yn yr achosion hyn o drais lefel isel, dim ond ar ôl i’r trais waethygu i bwynt tyngedfennol yr oedd ymyrraeth gweithiwr proffesiynol yn cael ei hystyried.

Fel rheol, bydd hyn yn arwain at ymyrraeth yr heddlu, lle bydd y ‘cyflawnwr’ yn cael ei arestio ac yn dod o dan y broses cyfiawnder troseddol. Bydd hyn yn aml yn arwain at euogfarn a rhoi Gorchymyn Atal ar waith yn atal cysylltiad pellach â’r dioddefwr. Yn rhai o’r achosion sydd wedi cael eu dwyn i’m sylw, nid dyma oedd y canlyniad yr oedd y dioddefwr yn ei ddisgwyl nac yn ei geisio. Mae rhai wedi dweud petaent wedi bod yn ymwybodol o'r canlyniad posib hwn na fyddent wedi cwyno, gan mai dim ond chwilio am help a chymorth i'w partner yr oeddent yn ceisio ei wneud.

Yn ogystal â deall yr effaith y gall dementia ei chael ar brofiadau cam-drin domestig, mae gwaith ymchwil wedi nodi hefyd fod person anabl ddwywaith yn fwy tebygol o brofi cam-drin domestig na pherson nad yw’n anabl.[9] Gan fod gan 36% o’n poblogaeth hŷn yng Nghymru anabledd, gallai hyn effeithio ar nifer sylweddol o bobl.

Ychydig iawn o wasanaethau cefnogi arbenigol sydd ar gael ac nid yw pobl hŷn yn ymwybodol iawn ohonynt. Mae hyn yn golygu y bydd pobl hŷn yn aml yn aros mewn sefyllfa o gamdriniaeth, neu’n dychwelyd i sefyllfa o'r fath, ac mae hyn yn gallu cael effaith negyddol ar eu hiechyd a’u lles. Nid yw gwasanaethau wedi’u targedu’n effeithiol at ddioddefwyr hŷn ac nid ydynt yn bodloni eu hanghenion bob amser.[10]

Mae pobl hŷn sy'n dioddef camdriniaeth yn cael anhawster mawr cael gafael ar ddewisiadau amgen addas o ran tai sy'n bodloni eu hanghenion; mae hyn yn berthnasol hefyd wrth geisio cael gafael ar loches.

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gam-drin domestig

Yn 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â'm swyddfa, ganllawiau i weithwyr proffesiynol ar ddiogelu pobl hŷn rhag cam-drin domestig.[11] Mae'r canllawiau'n darparu trosolwg cynhwysfawr o brofiadau pobl hŷn o gam-drin domestig a'r camau y gellir eu cymryd i roi sylw i hynny. Ond, yn ystod sesiynau hyfforddi y mae fy swyddfa i wedi bod yn eu darparu i weithwyr proffesiynol ledled Cymru, mae wedi dod i'r amlwg nad yw nifer o staff yn ymwybodol o'r canllawiau hyn.

Mae'r ddogfen ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru, ond nid wyf yn credu bod digon yn cael ei wneud i'w hyrwyddo ymhlith y staff y bwriedir iddi eu cyrraedd. Dylai Llywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus eraill ledled Cymru hyrwyddo'r canllawiau hyn yn well.

Fy ngwaith yn atal cam-drin pobl hŷn

Atal cam-drin pobl hŷn yw un o'r tair blaenoriaeth a gyflwynais yn fy strategaeth i wneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio ynddo. Fel rhan o'r gwaith hwn, byddaf yn cymryd camau i godi ymwybyddiaeth o gam-drin pobl hŷn ymhlith gweithwyr proffesiynol ac ar draws y gymdeithas yn ehangach; gwella mynediad at wasanaethau cefnogi i bobl hŷn sydd mewn risg o gael eu cam-drin; galluogi mwy o bobl hŷn sy'n cael eu cam-drin i gael mynediad at gyfiawnder cyfreithiol; a chymryd camau i atal achosion o gam-drin pobl hŷn.[12]

Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd fy swyddfa *Troseddau yn erbyn, a cham-drin, pobl hŷn yng Nghymru*, a oedd yn nodi bylchau yn y ddarpariaeth gwasanaeth a oedd yn bodloni anghenion pobl hŷn yn ogystal â diffyg dealltwriaeth a chydnabyddiaeth helaeth o gam-drin domestig ymhlith gweithwyr proffesiynol a fyddai'n dod i gysylltiad â phobl hŷn. Un o brif argymhellion yr adroddiad oedd dechrau darparu hyfforddiant ynghylch cam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn.[13]

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad, hwylusodd fy swyddfa gyfres o ddigwyddiadau seminar ledled Cymru, gan ddod ag arweinwyr gweithredol a strategol o awdurdodau lleol, byrddau iechyd, yr heddlu a mudiadau'r trydydd sector at ei gilydd. Diben y digwyddiadau hyn oedd i'r sefydliadau hyn ganfod meysydd a oedd angen eu gwella yn eu sefydliadau a datblygu camau gweithredu i fynd i'r afael â'r rhain. Er bod y sefydliadau hyn o bob cwr o Gymru wedi ymwneud yn gadarnhaol a'r broses, roedd angen gwneud mwy.

Yn dilyn hyn, dechreuodd fy swyddfa ddarparu ein hyfforddiant ein hunain ar gam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn i weithwyr proffesiynol yn y meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a'r heddlu. Hyd yma, mae dros 2,100 o unigolion sy'n gweithio ledled Cymru wedi cael yr hyfforddiant hwn. Dros y 12 mis nesaf, byddaf yn parhau i ddarparu hyfforddiant i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y meysydd iechyd a gofal cymdeithasol ac mewn gwasanaethau cyhoeddus allweddol eraill i'w galluogi nhw i adnabod arwyddion cam-drin a deall pa gefnogaeth sydd ar gael i warchod a diogelu pobl hŷn sydd wedi dioddef camdriniaeth. Byddaf yn edrych ar sut gellir datblygu hyn yn fodiwl hyfforddiant pwrpasol y gellir ei ddarparu gan adrannau hyfforddi mewnol awdurdodau lleol a byrddau iechyd.

Er mwyn cefnogi'r gweithwyr proffesiynol hyn, yn ogystal â'r cyhoedd, byddaf yn canfod ac yn mapio gwasanaethau cefnogi sydd ar gael i bobl hŷn sydd wedi dioddef camdriniaeth. Hefyd, byddaf yn datblygu set o adnoddau i sicrhau eu bod yn gallu dod o hyd i wybodaeth am y gwasanaethau cefnogi yn eu hardal (pan fyddant ar gael).

Yn ychwanegol at hyn, cynhaliais drafodaeth o gwmpas y bwrdd ym mis Mehefin i ddod â sefydliadau ac unigolion allweddol at ei gilydd - gan gynnwys yr heddlu, timau diogelu, byrddau iechyd, mudiadau'r trydydd sector ac arbenigwyr eraill - i ddysgu o brofiadau'r naill a'r llall, i edrych ar y cyfleoedd posib i gydweithio ac i drafod ffocws fy ngwaith.

Ar ôl y drafodaeth hon, byddaf yn cynnal tri digwyddiad trafod yn ystod yr hydref gydag arbenigwyr sydd â phrofiad ym meysydd gweithredu ac ymchwil er mwyn edrych ar yr hyn sy'n ysgogi pobl i gam-drin ac esgeuluso, ac er mwyn ystyried sut gellir rhwystro'r mathau hyn o gam-drin i bob diben. Bydd un o'r digwyddiadau'n canolbwyntio'n benodol ar gam-drin domestig yng nghyswllt pobl hŷn, a byddwn yn fodlon rhannu canfyddiadau'r drafodaeth hon â'r Pwyllgor.

Yn 2020, byddaf yn cyhoeddi gwaith ymchwil, yn gweithio gyda'r heddlu a Gwasanaeth Erlyn y Goron, i weld pam mae'r cyfraddau erlyn ac euogfarnau am droseddu yn erbyn pobl hŷn yn anghymesur o isel o gymharu â'r boblogaeth gyfan, yn enwedig mewn achosion sy'n ymwneud â diogelu, cam-drin ac esgeuluso mewn cartrefi gofal ac ysbytai. Trwy adolygu data a deilliannau dros 400 o achosion o ddiogelu ledled Cymru, mae'r gwaith ymchwil hwn yn gobeithio canfod ffyrdd posib o wella hyfforddiant ac ymchwiliadau diogelu a p'un ai oes modd gwella'r ddeddfwriaeth bresennol.

Ochr yn ochr â'r gwaith hwn, mae fy swyddfa'n parhau i gefnogi unigolion hŷn sydd wedi profi camdriniaeth neu sydd mewn risg o brofi camdriniaeth o'r fath. Hefyd, byddaf yn edrych yn ofalus ar sut mae Bil Cam-drin Domestig arfaethedig Llywodraeth y DU yn cael ei ddatblygu, a'i oblygiadau yng Nghymru.

I gloi

Mae’r ffaith bod miloedd o bobl hŷn ledled Cymru wedi dioddef camdriniaeth – gan gynnwys cam-drin domestig – bob blwyddyn yn rhywbeth na ddylem ni fel cymdeithas ei oddef.

Oherwydd sensitifrwydd a phwysigrwydd y mater hwn, rwy’n bwriadu datblygu cefnogaeth drawsbleidiol yn y Senedd er mwyn sicrhau'r gweithredu cenedlaethol sy’n angenrheidiol i roi terfyn ar gam-drin pobl hŷn yng Nghymru, ac yn galw ar Aelodau'r Cynulliad i siarad am y mater hwn.

Byddaf yn cwrdd â Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn nes ymlaen y mis hwn, i drafod y camau sy’n angenrheidiol er mwyn rhoi terfyn ar gam-drin pobl hŷn. Rwyf hefyd wedi codi’r mater â Jane Hutt, y Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip, mewn cyfarfod ym mis Mehefin. Rwyf wedi anfon copi o’r llythyr hwn atynt er gwybodaeth.

Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes modd i mi gynorthwyo ag ymholiadau’r Pwyllgor ymhellach.

Yn gywir,

Heléna Herklots CBE
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

CC: Jane Hutt, Dirprwy Weinidog a Phrif Chwip, Llywodraeth Cymru
Julie Morgan, y Dirprwy Weinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, Llywodraeth Cymru

[1] O'Keeffe, M. et al. (2007) UK Study of Abuse and Neglect of Older People Prevalence Survey Report; https://www.kcl.ac.uk/scwru/pubs/2007/okeefeetal2007ukstudyprevalence.pdf

[2] Yon, Y. et al. (2017) Elder abuse prevalence in community settings: a systematic review and meta-analysis; *The Lancet Global Health* (5:2); 147-156; https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S2214109X17300062

[3] Llywodraeth Cymru (2018) Diogelu Oedolion: Ebrill 2017 - Mawrth 2018; http://bit.ly/2KydS1T

[4] Data a ddarparwyd i'r Comisiynydd gan bedwar heddlu Cymru ar gyfer 2017-18 (Dyfed Powys, Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru)

[5] Bows, H. (2019) Domestic Homicide of Older People (2010–15): A Comparative Analysis of Intimate-Partner Homicide and Parricide Cases in the UK; https://academic.oup.com/bjsw/article/49/5/1234/5211414

[6] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2014) Criminal Justice Statistics Quarterly Update to March 2014; http://bit.ly/2M78y8M

Yn 2013-14, cofnodwyd 18,931 o droseddau yn erbyn pobl 60 oed a hŷn yng Nghymru. Gwnaethpwyd 2,561 o arestiadau. Aeth 233 o achosion i'r llys. Dim ond 194 o'r achosion a arweiniodd at euogfarn lwyddiannus. Cofnodwyd 3,506,699 o droseddau yn y DU yn 2013-14. Cyfanswm yr euogfarnau yn ystod 2013-14 oedd 675,316.

[7] Llywodraeth Cymru (2012) Gwerthusiad o Brosiect Peilot 'Mynediad i Gyfiawnder'; http://bit.ly/2kobRw8

[8] SafeLives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse; http://bit.ly/2NgNqN4

[9] Hague, G. et al. (2010) Disabled Women and Domestic Violence: Making the Links, a National UK Study; *Psychiatry, Psychology and Law* (18:1); 117-136; http://bit.ly/31u4KSS

[10] SafeLives (2016) Safe Later Lives: Older people and domestic abuse; http://bit.ly/2NgNqN4

[11] Llywodraeth Cymru (2017) Gwybodaeth a Chanllawiau ar gam-drin domestig: Diogelu Pobl Hŷn yng Nghymru; https://gweddill.gov.wales/docs/dsjlg/publications/commsafety/170622-safeguarding-older-people-cy.pdf

[12] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2019) Gwneud Cymru y lle gorau yn y byd i heneiddio; http://bit.ly/2lRsP6y

[13] Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (2015) Troseddau yn Erbyn, a Cham-drin Pobl Hŷn yng Nghymru; http://www.olderpeoplewales.com/wl/stopping-abuse/aberystwyth_report.aspx